# papur priordy

**Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,**
**A'm prynodd a thaliad mor ddrud;**
**Fe saif ar y ddaear, gwir yw,**
**Yn niwedd holl oesoedd y byd;**
**Er ised, er gwaeled fy ngwedd,**
**Teyrnasu mae 'Mhrynwr a'm Brawd;**
**Ac er fy malurio'n y bedd,**
**Ca'i weled Ef allan o'm cnawd.**

**Thomas Jones, 1756-1820**
**Ton (Tredwen) Emlyn Evans 1843-1913**
**Caneuon Ffydd 547**

**Dewiswyd gan Emlyn Schiavone**
***Gweler y rheswm am ei ddewis y tu mewn***

**Rhifyn 346**
**PAPUR GORFFENNAF / AWST 2021**

**Llongyfarchiadau mawr i Beti-Wyn ar ei llwyddiant diweddar yn ennill gradd uwch MTh. Ardderchog yn wir. A dyma fanteisio ar y cyfle i'w holi am y cwrs a'r gwaith a gyflawnodd:**

**PP: Dywedwch ychydig wrthym yn y lle cyntaf am y cwrs y buoch yn ei ddilyn – ei hyd a'i strwythur, er enghraifft**.
**BW**: *Rwy wedi bod yn dilyn cwrs MTh (Master of Theology) yn rhan amser dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae mwy nag un llwybr y gellir ei ddilyn o fewn i'r cwrs MTh ac fe ddewisais i ddilyn llwybr Diwinyddiaeth Ymarferol (Practical Theology) gan fy mod yn awyddus iawn i ddaearu elfennau gwahanol y cwrs yn fy ngweinidogaeth, a thynnu o'm mhrofiad yn y weinidogaeth. Roedd disgwyl i mi gwblhau 6 modiwl dros gyfnod o 2 flynedd gyda thraethawd ar ddiwedd bob un, ynghyd â thraethawd hir 20,000 o eiriau. Roeddwn yn teimlo allan o'm dyfnder ar y cychwyn cyntaf a hynny yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod holl weinyddiaeth y cwrs a'r coleg ar-lein. Dim ffeil yn unman! Ond buan y des yn gyfarwydd ag e. Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen am ariannu'r cwrs ar ei hyd. Bûm mor ffodus i gael fy noddi.*

**PP: Fe gyflawnoch chi'r gwaith dan gyfarwyddyd Coleg y Bedyddwyr Caerdydd.**
**BW**: *Do, ac rwy'n ddiolchgar i Catrin Haf Williams am fy nghyfeirio at y cwrs. Mae'r cwrs yn cael ei gynnig gan Brifysgol Caerdydd a'i ddysgu gan Goleg y Bedyddwyr mewn cydweithrediad ag Athrofa San Padarn, yng Ngholeg San Mihangel, Llandaf. Mae wedi bod yn brofiad llesol iawn cael astudio yng nghwmni pobl o wahanol draddodiadau / enwadau eglwysig. Mae gan Goleg y Bedyddwyr adeilad hyfryd ar Heol Richmond, Caerdydd ac roeddwn wrth fy modd yn treulio bob dydd Gwener yn gweithio yn y llyfrgell yno. Hefyd, mae Coleg San Mihangel yn adeilad hyfryd iawn, a manteisias ar y llety arbennig sydd yno ar fwy nag un achlysur – a hynny i'm harbed rhag gadael Caerfyrddin am 7 y bore i gyrraedd y ddarlith am 9!*

Coleg y Bedyddwyr Caerdydd
South Wales Baptist College

*Rwyf wedi gwneud llawer iawn o ffrindiau newydd, ac mae Coleg y Bedyddwyr wedi edrych ar fy ôl yn dda iawn, yn enwedig dros y cyfnod clo, gyda chwrdd gweddi rhithiol bob bore a grŵp bugeiliol (Cymraeg) yn cwrdd bob yn ail wythnos. Rwy'n edrych ymlaen at yr oedfa ymadael yn mis Gorffennaf.*

**PP: A gawsoch chi unrhyw anawsterau o ganlyniad i'r pandemig?**

**BW***: Do. Y broblem fwyaf i fi oedd methu â chael mynediad i lyfrgell y coleg. Roeddwn wedi llwyddo i gwblhau'r modiwlau i gyd yn ystod y flwyddyn gyntaf a thymor cyntaf yr ail flwyddyn. Roedd hyn yn gadael dau dymor yn glir i mi ysgrifennu fy nhraethawd hir, yn union pan aeth y wlad i mewn i'r cyfnod clo - ac roedd cael mynediad i'r llyfrgell yn allweddol. Roedd y ddarpariaeth ar-lein yn dda iawn, ond roedd angen tawelwch arnaf, mewn ystafell ymhell o Gaerfyrddin, er mwyn canolbwyntio'n iawn! Roedd gweld eisiau cwmni ein gilydd wyneb yn wyneb yn anghyfleus hefyd, ond aeth staff y coleg yr ail filltir i'n helpu ym mhob ffordd posib a hynny dan amgylchiadau digon heriol iddyn nhw hefyd.*

**PP: Bydd llawer yn rhyfeddu'ch bod wedi dod o hyd i amser i wneud yr holl waith. Fuoch chi'n llosgi'r gannwyll?**

**BW***: Wel … do, ond mae digon o gwyr ar ôl yn hon o hyd! Mae'r cwrs wedi gwneud lles i mi mewn mwy nag un ffordd. Yn un peth, roeddwn wedi ymddiethrio oddi wrth awduron a diwinyddion diweddar, ac roedd yn hen bryd fy mod yn rhoi amser i ychydig bach mwy o ddarllen academaidd er mwyn cadw lan â'r meddyliau diwinyddol diweddara. Mae llawer wedi digwydd yn fy mywyd personol dros y 2 flynedd diwethaf hefyd, ac rwy'n sicr bod y cwrs wedi rhoi ffocws newydd i mi ac wedi bod o gymorth. Collais mam ar dechrau tymor cyntaf fy ail flwyddyn. Bu staff y coleg yn dda iawn i mi yn ystod y cyfnod hwn a chefais estyniad ar ddyddiad cau fy nhraethawd. Manteisiais ar y cyfle i ysgrifennu 'Myfyrdod Diwinyddol ar bwysigrwydd Eglwysi Dementia Gyfeillgar'. Roedd mam yn dioddef o glefyd Alzehimer's, a gwyddom fel teulu o brofiad ba mor*



*bwysig oedd ei bod yn cael ei chynnwys yn llawn ym mywyd eglwys Capel Y Nant, Clydach er gwaetha ei chyflwr. Roedd ysgrifennu'r traethawd hwn yn sicr wedi bod o gymorth i mi yn y broses o alaru am mam.*

**PP: Fel y nodwyd gennych eisoes, roedd un rhan o'r cwrs yn golygu darparu traethawd ymchwil hir. Pa destun ddewisoch chi a pham?**



**BW***: Roeddwn wedi penderfynu'n wreiddiol i ganolbwyntio ar elfennau gwahanol o addoliad, gan taw dyna yw fy mhrif ddiddordeb yn y weinidogaeth. Ond daeth y cyfnod clo, a ninnau fel gofalaeth wedi gorfod addasu'n go gyflym i'r argyfwng. Dyma benderfynu cymryd mantais felly o'r cyfnod heriol ond unigryw hwn a dewis testun i'm traethawd hir 'Covid-19 a'r Eglwys leol. Sut mae Covid-19 wedi newid y syniad poblogaidd o'r hyn yw bod yn eglwys ymhlith cynulleidfaoedd anghydffurfiol Cymraeg lleol yng Ngorllewin Cymru. Mawrth 2020 – Awst 2020."*

**PP: Roedd yn golygu cysylltu ag aelodau'r Ofalaeth. Gawsoch chi ymateb da?**

***BW****: Yr unig ffordd o gylfawni'r gwaith ymchwil oedd i lunio holiadur a'i ddanfon at drawsdoriad o 130 o aelodau'r Ofalaeth. Dychwelwyd 110 ohonynt, sy'n ymateb anhygoel. Treuliais y rhan fwyaf o wyliau haf 2020 yn dadansoddi'r data! Rwy mor ddiolchgar i bawb am ymateb. Bu'r ymatebion yn onest, yn drylwyr, yn gyfoethog ac yn heriol – jest y peth ar gyfer gwaith ymchwill! Roedd yr holiadur mewn 4 rhan: mewn cyfnod o hunanynysu, sut mae Hunaniaeth, Addoliad, Gofal Bugeiliol a Chenhadaeth yr eglwys wedi eu heffeithio. Yr un 4 rhan oedd sgerbwd y traethawd ymchwil.*

**PP: Oes yna unrhyw wersi rydych chi wedi'u dysgu drwy ddilyn y cwrs arbennig hwn?**

**BW***: Oes, llawer. Mae e wedi agor fy meddwl ac wedi fy arwain i ystyried nifer o bethau mewn ffordd wahanol, e.e. ffyrdd newydd a ffres o addoli, pwysigrwydd gweddi, adnoddau newydd, y weinidogaeth ddigidol, a bod modd edrych ar bopeth bron trwy*

*lygaid diwinyddol.  Hefyd, disgyblaeth. Rwy'n berson reit ddisgybledig ar y cyfan – yn berson sy'n hoffi trefn (efallai eich bod wedi sylwi!), pethau yn cael eu gwneud yn iawn, ac yn hoffi gwneud pethau cystal ag y medraf. Ond roedd dilyn cwrs meistr wedi codi fy nisgyblaeth i lefel uwch fyth! Rhwng y weinidogaeth lawn amser, dilyn y cwrs a chyfrifoldebau teuluol, aeth amser sbâr yn brin iawn ar adegau – ac rwy'n gwybod o brofiad nad yw hynny'n beth da. Felly, dysgu rhoi'r brêcs ymlaen bob yn hyn a hyn, bwyta'n iach a chael digon o ymarfer corff. Mae'n hawdd iawn i rywun, wrth foddi mewn gwaith yr ydych yn cael cymaint o fwynhad yn ei wneud, esgeuluso'r corff a'r meddwl. Dyna wers bwysig i bawb ohonom!*

**PP: Ydych chi'n teimlo bod y cwrs wedi'ch helpu yn y weinidogaeth?**
**BW**: *Ydw, yn sicr. Yn un peth, roeddwn yn wynebu'r cwrs hwn gyda 28 mlynedd o brofiad yn y weindogaeth! Roedd astudio'r cwrs gydag aeddfedrwydd meddwl yn sicr yn brofiad tra gwahanol i astudio ar gyfer fy ngradd gyntaf mewn diwinyddiaeth yn 22 oed.  Roeddwn wedi gallu plethu profiadau i mewn i'r cwrs coleg, gan uniaethu ag ambell agwedd drwy fy mhrofiad fy hun. Roeddwn yn edrych ar y cwrs fel datblyiad proffesiynol, ac yn awyddus i unrhyw brofiad newydd a gefais fwydo i mewn i'm gweinidogaeth.  Bu danfon yr holiadur allan yn ymarfer ardderchog. Rwyf eisioes wedi cychwyn gweithredu ar rai o'r awgrymiadau ac felly hefyd wedi gorfod ailystyried ambell beth arall. Rwy wedi gwerthfawrogi bod yn rhan o gymuned Coleg y Bedyddwyr hefyd ac wedi cael llawer o brofiadau cyfoethog y tu allan i'r cwrs academaidd - sgyrsiau difyr iawn a chyfle i rannu syniadau newydd, dysgu am bethau ac adnoddau newydd, ac uno mewn gweddi yn gyson.*

**PP: Wel, llongyfarchiadau eto. Chi'n hoff o osod heriau i chi'ch hunan. Tybed beth fydd y nesaf felly?!!**
**BW**: *Gwyliwch y gofod!*



**Gweddïwn**



Ti yw tangnefedd pob tawelwch,
Ti yw y man i guddio rhag niwed,
Ti yw'r goleuni sy'n llewyrchu yn y tywyllwch,
Ti yw'r gwreichionen dragwyddol yn y galon,
Ti yw y drws sy'n llydan agored,
Ti yw y gwestai sy'n aros y tu mewn,
Ti yw y dieithryn wrth y drws,
Ti yw'r un sy'n galw'r tlawd,
Ti yw f'Arglwydd sydd gyda mi byth,
Ti yw rhy nghariad, cadw fi rhag cam,
Ti yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd,
Ty yw 'Ngwaredwr, y dydd hwn, a phob amser.

**Amen**

***Gweddi gan David Adam, cyn-löwr, ficer Ynysmetgawdd, ac awdur nifer o weddïau cyfoes yn y dull Celtaidd. Gweddi o'r gyfrol Mil a Mwy o Weddiau***

**MIS AWST**

Yn ôl fy arfer, fe fyddaf yn cymryd seibiant o'm gwaith yn ystod mis Awst. Os oes argyfwng yn codi yn fy absenolddeb, a fyddech gystal â chysylltu â:
Marlene Jones, Cana: ☎07528 454834
Joanne Richards, Bancyfelin:☎ 07412 254929
Alun Charles, Priordy:☎ 07813 716062
Dim galwadau ffôn ar fy ffôn symudol os gwelwch yn dda ac eithrio drwy'r enwau uchod. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad. Bydd oedfaon digidol mis Awst wedi eu paratoi ymlaen llaw gennyf ac yn cael eu rhyddhau dros y we yn wythnosol.
Haf bendithiol a diogel i chi i gyd.

Beti-Wyn

# DARLLENIADAU

| Mis Gorffennaf / Mis Awst | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Salm 45: 10-17 |
| Wythnos 2 | Salm 119: 105-112 |
| Wythnos 3 | Salm 139: 1-12, 23-24 |
| Wythnos 4 | Salm 105: 1-11 |
| Wythnos 5 | Mathew 14: 13-21 |
| Wytnnos 6 | Mathew 14: 22-33 |
| Wythnos 7 | Mathew 15: 10-20, 21-28 |
| Wythnos 8 | Mathew 16: 13-20 |
| Wythnos 9 | Mathew 16: 21-28 |


**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**SGRIPT CYF**
**Llandeilo**

**Beti-Wyn, Elin a Sara**

**John a Carys Green**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***


AR Y WE: www. priordy. org *(yn cynnwys Papur Priordy)*

## EIN LLYWYDD NEWYDD




Mewn oedfa arbennig yng Nghapel Newydd Llandeilo ar Nos Lun, 21




Mehefin 2021, sefydlwyd Beti-Wyn yn Llywydd Undeb yr Anibynwyr Cymraeg, Trosglwyddwyd y swydd iddi ynghyd â Beibl y Llywydd gan y cyn-Lywydd, Y Parchedig Jill-Hailey Harries.

.





Gwelir y Beibl yn y lluniau sy'n cynnwys llofnod William Rees (Gwilym Hiraethog) a sefydlwyd yn Llywydd cyntaf yr Undeb yn Heol Awst Caerfyrddin ym 1872. A bellach mae ynddo hefyd lofnod Beti-Wyn.

Gwaetha'r modd, nid oedd yn bosibl i bawb ddod i'r oedfa hon oherwydd y cyfyngiadau presennol ond cynrychiolwyd




eglwysi'r Ofalaeth gan yr Ysgrifenyddion. Agorwyd yr oedfa gan y Parchedig Dyfrig Rees, Ysgrifennydd yr Undeb a chymerwyd rhan gan y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor (darlleniad) ac Alun Charles (gweddi) a'r Parchedig Emyr Gwyn Evans (Gweddi i goffáu Gweinidogion a fu farw). Cafwyd anerchiad gan y cyn-Lywydd yn crisialu'i



chyfnod wrth y llyw a mynegodd Beti-Wyn yn ei neges ei gobeithion am y ddwy flynedd nesaf. Bydd yn traddodi Anerchiad y Llywydd y flwyddyn nesaf pan fydd yr Undeb yn ymweld â Chaerfyrddin ym mlwyddyn dathlu 150 o flynyddoedd ei fodolaeth. Roedd hi'n braf i ni allu canu eto, gydag Owain Gruffydd, Capel Newydd, wrth yr organ.

Rhyddhawyd yr oedfa lawn (yn cynnwys rhai eitemau ychwanegol) ar Zoom ar Nos Iau I Gorffennaf yn ystod cyfarfodydd Blynyddol Rhithiol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2021.

Ein dymuniadau da i Beti-Wyn yn ystod ei llywyddiaeth. Hyderwn yn fawr y caiff gyfnod bendithiol, llawen a llewyrchus

## GŴYL Y SUL SBESIAL

**11 Gorffennaf 2.00 ar Zoom**

**ARGYFWNG NEWID HINSAWDD**

Croeso - Elonwy Phillips
Cadeirydd y Cyfundeb

Defosiwn gan blant
Ysgol Sul Hermon

Gweledigaeth MIC
Jack Newbould

Newid Hinsawdd
Cai Phillips
Dr Hefin Jones

e-bostiwch am ddolen
alunlenny@hotmail.com

**GYDA'N GILYDD**
**Cylchlythyr Annibynwyr Gorllewin Cymru**
**Rhifyn dwbwl – Gwanwyn / Haf 2021**

**Copi ar gael gyda'r Papur y mis hwn**

**Alison Parsons…**



## PYTHEFNOS MAETHU




Bob blwyddyn mae ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith diflino mae gofalwyr maeth yn ei wneud a hefyd i geisio denu pobl newydd i ystyried maethu. Mae'r angen yn cynyddu a'r flwyddyn ddwetha yma wedi gwneud popeth yn anos.

Y gred ymhlith nifer o weithwyr cymdeithasol yw bod yna genhedlaeth o blant wedi'i cholli yn ystod y pandemig. Syrthiodd nifer y gorchmynion amddiffyn plant 20% yng Nghymru yn ystod 2020/2021. Byddai cwymp fel hyn yn achos i'w ddathlu mewn amseroedd gwahanol ond y grêd ymysg undebau ac elusenau yw bod rhai o'n plant mwya bregus wedi'u colli am na chawsant ei gweld yn ystod y cyfnod clo. Nid yw'r cwymp felly yn destun dathlu, a chredir mai mater o amser yw hi tan i ni weld effaith llawn y clo ar blant mwya difreintiedig ein cymunedau. Mae'r cyfleoedd i weld plant yn gynnar, h.y. trwy ysgolion, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol, a gweithwyr iechyd, wedi bod yn absennol yn ystod y pandemig. Yn syml, does neb wedi gweld ein plant ac wrth i'r cyfyngiadau lacio mae disgwyl i ni weld y gwir effaith, a'r gredo yw y bydd cynnydd aruthrol am ofalwyr maeth i ateb y galw. Felly, cynhaliwyd pythefnos maethu eleni rhwng 10-23 Mai 2021.




Oherwydd y pandemig roedd popeth ar lein, ond cafwyd noson arbennig (er gwaetha'r tywydd garw!) ar nos Iau 20 Mai lle gwelwyd nifer o adeiladau trwy Gymru wedi eu goleuo i ddathlu gwaith ein gofalwyr maeth. Gofynnwyd i gymaint â phosibl o bobl roi golau yn ei ffenestri ac ar y gwefannau cymdeithasol i ddangos eu cefnogaeth.  Rwy'n ddiolchgar iawn i nifer o aelodau'r Priordy a Chôr Tonic am eu parodrwydd i wneud hyn.

Mae yna fanteision lu i fedru siarad Cymraeg ond pan mai chi yw’r unig un o fewn y gwasanaeth maethu yn Sir Gâr, dyw hi ddim wastad yn teimlo felly! Nid yw’n bosibl osgoi gwneud cyfweliad ar y teledu (fy nghas beth!!) a dyma fi felly yn ‘cytuno’ i wneud cyfweliad ar **Prynhawn Da** yn ystod pythefnos maethu i godi ymwybyddiaeth o’r angen. Roedd yn brofiad tra gwahanol i fy ngwaith bob dydd ond ar y cyfan yn brofiad positif. Wedi’r cyfan, mae unrhyw gyfle i siarad am y gwaith arbennig mae ein gofalwyr maeth yn ei wneud yn werth pob eiliad o’r nerfau!

Rwyf wedi bod yn gweithio o fewn y maes hwn am dros ugain mlynedd bellach a dw i byth yn blino ar weld y gwahaniaeth mae gofal arbennig rhiant maeth yn ei wneud i blant a phobl ifanc, Mae fy edmygedd ohonynt yn enfawr ac mae’r mae’r flwyddyn ddiwethaf wedi dangos eu dycnwch a’u hymrwymiad. Mae ein dyled fel cymdeithas yn fawr iddynt. Dydyn nhw ddim yn cael y gydnabyddiaeth maent yn ei haeddu yn fy marn i.





Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn anodd ond wedi dangos i ni’r gwaith pwysig mae gofalwyr o bob math yn ei wneud. Y rhain yw’r bobl sy’n haeddu ein clod a’n diolch.

**BORE COFFI MACMILLAN**
***Yn rhan o Fore Coffi Mwya’r Byd***

**Dydd Gwener 24 Medi 2021**

**Nodwch y dyddiad, os gwelwch yn dda.**
**Trefniadau i ddilyn**



**DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS**

**Gillian Frazer….**



## Mary Baker Eddy a Seientiaeth Gristnogol

**Mary Baker Eddy (1821-1910)**

Bydd hi'n ddaucanmlwyddiant geni **Mary Baker Edd**y, sefydlydd Eglwys y Seientiaid Cristnogol, ar 16eg Gorffennaf 2021. Roedd hi'n wraig ryfeddol; roedd hi'n awdures, yn feddyliwr, ac roedd hi'n iacháu, yn pregethu, yn diwinydda a hefyd yn ddynes fusnes. Roedd hi'n berson dyngarol ac yn gymwynasgar iawn. Hyn i gyd er gwaethaf gwrthwynebiad gelyniaethus cwbl agored gan lawer o bobl a oedd yn teimlo nad oedd lle iddi ym mywyd crefyddol gwrywaidd y dydd.



Fe'i ganed i deulu o Biwritaniaid yn New Hampshire yn yr Unol Daleithiau ac roedd hi'n aelod o Eglwys yr Annibynwyr. Carai'r eglwys yn angerddol a bu'n aelod am 37 o flynyddoedd.

Wynebodd lawer o anawsterau pan oedd hi'n fenyw ifanc a dioddefodd o afiechyd cronig. Bu farw'i gŵr o'r dwymyn felen bron saith mis ar ôl iddyn nhw briodi a'i gadael yn feichiog ac yn ddiymgeledd. Gan nad oedd hi'n gallu gofalu am ei mab oherwydd ei salwch ei hun, fe'i hanfonodd i fyw gyda chwpl pan oedd tua saith oed. Symudodd y cwpl i Minnesota maes o law a dywedwyd wrth Eddy bod ei mab ar goll yn yr anialwch; dywedwyd wrth y plentyn bod ei fam wedi marw. Ail-briododd ond cafodd ysgariad ugain mlynedd yn ddiweddarach. Doedd ei hiechyd ddim yn dda o gwbl yn ystod y cyfnod hwn a threuliodd flynyddoedd yn trio amryw feddyginiaethau. Bu'n rhaid iddi ei chynnal ei hun eto ar ôl i'w gŵr adael ond er gwaetha'r cyfan, llwyddodd i gadw'i hargyhoeddiad dwfn o gariad Duw wrth iddi barhau i astudio'r Beibl.

Ym 1866, yn sgil damwain ddifrifol a oedd yn fygythiad i'w bywyd cafodd iachâd dramatig drwy ddarllen un o hanesion Iesu yn iacháu. Roedd hi'n awyddus i wybod sut roedd hi wedi cael ei hiacháu, felly aeth ati i astudio'r Beibl yn ddyfnach ac i weddïo am atebion. Daeth yn amlwg iddi fod ei hiachâd yn un ysbrydol, yn seiliedig ar ddeddfau dwyfol Duw, yn union fel y dangosodd Iesu i ni yn yr Efengylau. Profodd y gall unrhyw un ddefnyddio'r deddfau hyn i wella pob math o ddioddefiadau a phechodau dynol.

Daeth Eddy i sylweddoli nad yw iachâd ysbrydol yn rhywbeth gwyrthiol ond yn hytrach ei fod yn digwydd yn sgil deall pŵer a chariad Duw, sy'n gallu cael eu profi heddiw yn union fel yng nghyfnod y Beibl. Am y deugain mlynedd wedyn, aeth Eddy ati i ddysgu ac i rannu'r iachâd hwn, sef Seientiaeth Gristnogol. Roedd hi'n cael ei hadnabod fel iachawraig Gristnogol ac roedd hi'n cael ceisiadau niferus i iacháu achosion nad oedd meddygon wedi llwyddo i'w gwella. Un diwrnod, aeth i weld menyw yr oedd meddyg amlwg wedi dweud wrthi y byddai'n marw. Cymaint oedd rhyfeddod y meddyg pan gafodd y fenyw ei hiacháu fel yr anogodd Eddy i ysgrifennu llyfr i egluro'r dull o iacháu i'r byd.

A dyna a wnaeth. Roedd *Science and Health with Key to the Scriptures* yn gyfrol arloesol a dyma'r un y mae myfyrwyr Seientiaeth Gristnogol yn ei defnyddio i'w helpu i ddeall y Beibl yn well, yn enwedig dysgeidiaeth a gwaith Iesu Grist. Nid yw'n disodli'r Beibl o gwbl, ond mae'n cael ei darllen ochr yn ochr â'r Beibl gan unigolion ac yng ngwasanaethau'r eglwys. Mae'r can tudalen olaf yn cynnwys hanesion sy'n tystio i iacháu sydd wedi digwydd ar ôl ei darllen.

Yn sgil cydnabod hunaniaeth Gristnogol newydd ac unigryw Seientiaeth Gristnogol, a gan fod Eddy'n wynebu gwrthwynebiad gan eglwysi traddodiadol, aeth ati i sefydlu Eglwys Crist, Seientiad, yn fudiad byd-eang gyda'r bwriad o ailsefydlu iachâd Cristnogol yr Eglwys Fore.

Roedd Eddy yn awdures doreithiog ac fe fyddai'n golygu ac yn mireinio'i llyfr drwy gydol ei bywyd. Cyhoeddodd nifer o lyfrau eraill a sefydlodd lawer o gylchgronau eglwysig wythnosol a misol - *The Christian Science Sentinel, The Christian Science Journal* a *The Herald of Christian Science*, sy'n cael eu cyhoeddi mewn nifer o

ieithoedd ac sy'n cynnwys erthyglau ar Seientiaeth Gristnogol a thystiolaeth wedi'i gwirio o iacháu. Ym 1908, pan oedd hi'n 87 oed, sefydlodd *The Christian Science Monitor,* papur newydd byd eang sy'n rhoi sylw cytbwys ac ystyriol i newyddion y byd. Cafodd y papur ei sefydlu fel nad yw'n "anafu unrhyw un ond yn bendithio pob un o'r ddynoliaeth" ac mae wedi ennill saith gwobr Pulitzer. Erbyn hyn, mae *The Monitor* yn cyhoeddi argraffiad digidol bob dydd ac yn argraffu cylchgrawn bob wythnos.

## Tystiolaeth o Gymru

Cafodd mwyafrif eglwysi, cymdeithasau ac ystafelloedd darllen y Seientiaid Cristnogol yng Nghymru eu sefydlu yn ystod y 1920au a dechrau'r 30au yn bennaf. Tyfodd rhai ohonyn nhw yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar ôl i lawer o weision sifil adrannau'r llywodraeth gael eu hadleoli i Ogledd Cymru. Bydden nhw'n addoli yno bob dydd Sul ac yn rhannu profiadau o iacháu bob nos Fercher.

Mae llawer o Seientiaid Cristnogol o Gymru wedi rhannu eu hanesion yng nghylchgronau'r Seientiaid Cristnogol, gan sôn am gael eu hiacháu o heintiau drwy weddïau a oedd yn seiliedig ar y Beibl. Roedd meddygon wedi gwneud diagnosis o lawer ohonyn nhw - nerfwst (*neurasthenia*), anaemia, twymyn gwynegon, fflebitis, canser yn yr afu, arthritis, anhwylderau difrifol ar y galon, osteoarthritis, gwythiennau varicos a thiwberciwlosis. Fel arfer, roedd newid yn y ffordd o feddwl yn digwydd yn ystod yr iacháu hwn, gyda'r rhai a oedd yn tystiolaethu yn mynegi eu gwerthfawrogiad o fod wedi goresgyn eu diffyg amynedd, eu hanoddefgarwch, eu dicter a'u hunandosturi a.y.b. Yn ogystal â'r iacháu corfforol, roedd pobl yn cael iachâd yn eu bywyd pan oedd angen pethau fel cartref, gwaith, pethau-pob-dydd a pherthynas well gyda'u cymar. Roedd yr hanesion hyn yn dod oddi wrth ddynion a menywod yn Nhrawsmawr, Bangor, Cwmgwyn, Abertawe, Prestatyn, Carno, Eglwysfach a nifer o leoedd eraill.

Er bod llai o adeiladau heddiw, mae'r iacháu yn parhau i ddigwydd – o Amlwch i'r Barri. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Fam Eglwys

yn Boston yn yr Unol Daleithiau wedi darlledu tystiolaeth dau berson o Gymru. Mae pobl yn parhau i fwynhau cyfarfod gyda'i gilydd (pan fydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu) ac mae grŵp anffurfiol wedi cael ei sefydlu ym Metws-y-Coed sy'n denu pobl o Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n ddiddorol nodi bod llyfr emynau'r Seientiaid Cristnogol yn cynnwys tonau o Gymru megis Cwm Rhondda, Llansannan, St Denio, Tôn y Botel a Meirionydd.

Rai blynyddoedd yn ôl, cafodd dyn ifanc a oedd wedi ei eni a'i fagu yng nghymoedd y De brofiad hynod pan gafodd ei gefn crwm ac un goes fer eu hiacháu yn ystod darlith ar Seientiaeth Gristnogol. Doedd e ddim yn gwybod dim byd am y grefydd honno pan aeth e'n anfoddog i wrando ar y ddarlith, ond cafodd ei iacháu'n llwyr a maes o law cafodd ei iacháu o anhwylderau eraill ac o'i ddibyniaeth ar gyffuriau hefyd. Erbyn hyn, mae e'n helpu pobl eraill i wella ac mae e'n darlithio ar Seientiaeth Gristnogol o gwmpas y byd. Gallwch chi weld ei hanes ar https://www.youtube.com/watch?v=jVUZWwrPBn4

**Diolch yn fawr iawn I Gillian Frazer am yr erthygl hon. Cysylltwyd á Chymdeithas Seientiaeth Gristnogol Caerdydd am wybodaeth am y Gymdeithas a'i gweithgarwch yng Nghymru, yn enwedig gan ei bod yn ddaucanmlwyddiant geni'r sefydlydd eleni. Bu Gillian, aelod o Bwyllgor Cyhoeddi Cymru ar gyfer Seientiaeth Gristnogol sy'n byw yn Llandyrnog yn Nyffryn Clwyd yn fwy na pharod i'n helpu a chynhyrchodd yr erthygl ddiddorol hon a chael Hedd a Non ap Emlyn (Rhuthin) i'w chyfieithu i'r Gymraeg ar ei rhan. Aeth Gillian yr ail filltir drosom a gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn. Dymunwn yn dda iawn hefyd i Seientiaeth Gristnogol ar achlysur mor arbennig yn ei hanes. Ceir ychydig o hanes Gillian isod:**

*Cafodd fy mam-gu ei gadael yn weddw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac roedd hi'n ei chael hi'n anodd magu dwy ferch ar ei phen ei hun. Yr adeg honno, roedd fy mam yn dioddef ar ôl i'w nerfau dorri a chafodd ei chyflwyno i Seientiaeth Gristnogol gan brifathrawes ei hysgol ar ôl iddi ei gweld hi'n dioddef. Bu gwelliant ym mywyd y teulu ar ôl hynny, llwyddwyd i ddiwallu pob angen a chafodd llawer o anawsterau ffisegol eu gwella.*

*Rydw i'n hynod ddiolchgar o fod wedi cael fy nysgu yn un o ysgolion Sul y Seientiaid Cristnogol hyd nes roeddwn i'n 20 oed. Wedi'r cyfan,*

*pan rydych chi yn eich arddegau neu'n oedolyn ifanc rydych chi'n sylweddoli gwir werth gwerthoedd Cristnogol ac fe welais i drosof fy hun wir werth Cristnogaeth fel yr oedd Iesu yn ei dysgu. Rydw i wedi bod yn hapus i wasanaethu mewn sawl ffordd mewn eglwysi a chymdeithasau lleol drwy gydol fy mywyd. Rydw i wedi bod yn dyst i aelodau o fy nheulu'n cael eu hiacháu o sawl cyflwr difrifol ac rydw i wedi cael bywyd o ddibynnu ar ddim byd ond gweddi ar gyfer fy iechyd fy hun.*

*Cefais fy magu yn Swydd Gaerhirfryn a symudais i Ogledd Cymru gyda'm rhieni yn fy ugeiniau cynnar, gan dreulio fy ngyrfa mewn gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus – i Gyngor Bwrdeistref Colwyn i ddechrau, yna Cyngor Sir Clwyd ac i Sir y Fflint wedi hynny. Rydw i'n byw gyda fy ngŵr yn Llandyrnog yn ardal hyfryd Dyffryn Clwyd erbyn hyn ac er nad yw e'n un o'r Seientiaid Cristnogol, mae e wedi fy nghefnogi fi drwy gydol ein bywyd priodasol ac mae e wedi bod yn dyst i'w effeithiolrwydd.*



**Peter Hughes Griffiths...**




## MWY O EIRIAU A DYWEDIADAU TAFODIEITHOL

Fe gafwyd sawl ymateb i'r erthygl y mis diwethaf ynglŷn â chasgliad o eiriau tafodieithol y diweddar Simon Davies, Llandysul.

Fe anfonodd **Stella Hughes,** sy'n byw yn 2 Geryllan, Y Rhodfa, Caerfyrddin ei chasgliad hi o ardal ei magwraeth yn Llanfynydd, er ei bod yn cydnabod bod dylanwad ardaloedd Cynwyl Elfed, Ffynnonhenri a Llanpumsaint trwy ei rhieni yn rhan o hynny. Dyma ddetholiad o'i chasgliad hithau.

**'moshwns'**- rhywun yn gwneud stumiau
**'yr un boerad'** neu **'yr un sbit'** – yn debyg iawn
**'yn gwmws yr un peth'** – yn union yr un fath
'**tân wedi mynd i Sir Fflint'** – y tân wedi diffodd
**'mae fel Trefenty Fowr 'ma'** – mae'n brysur iawn
**'trampan'** – wastad yn mynd
**'biti dagu'** – syched ofnadwy
**'yn feddw gaib', 'yn feddw gorlac', 'yn dablen fowr', dim bagal o dano'** – rhywun wedi meddwi'n ofnadwy
**'trangwns'** – nifer o bethau di-werth
**'mae hanner yn Shir Benfro'** – heb fod o gwmpas ei bethau
**'nudden'** – niwlen denau
**'hen sgwarnog'** – clywed mwy nag unwaith
'**shangdifang'** – popeth dros y lle i gyd




'**jingalarins'** – gwisgo llawer o dlysau
**'tipyn o floneg'** – yn dew
**'mwstro'** – mynd yn gyflym
**'fel pelican yn yr anialwch'** – yn unig
**'fel y galchen'** – yn wyn iawn
**'fel heddi a fory'** – yn araf
**'fel rhaca o denau'** – yn denau iawn
**'comopo'** – dweud y drefn
**'greme'** – haen o fryntni
**'colbo arni'** – symud ymlaen

**‘dim cwrcyn’** - neb yno
**‘llawhannen’ -** sach fawr wedi ei hagor allan i gario
**‘holi ei berfedd’** – am wybod popeth
**‘lan gofynu a lawr y gwared’** – mynd i fyny ac i lawr bryn
**yn ddi-ddal’** – rhywun na allwch ddibynnu arno

Byddai’n dda i gasglu mwy o’ch ardal chi!






## COFIO EUROS

***John Pritchard (gol)***

***Cyfrol Goffa Euros Wyn Jnes Gweinidog, Athro a Hofforddwr i Weinidogion a Phregethwyr***

***Cyhoeddiadau’r Gair Mehefin 2021 £9.99***



## DARPAR-LYWYDD NEWYDD YR UNDEB

Etholwyd y Parchedig Jeff Williams, Aberhonddu, yn ddarpar lywydd newydd yr Undeb.

Hoffem ei longyfarch yn fawr a dymuno’n dda iddo wrth ei waith.

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

## NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### Dymuno'n dda

Dymuniadau da i'ch Gweinidog sy'n dod yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng nghyfarfodydd Blynyddol Rhithiol yr enwad ddiwedd mis Mehefin.




### Amserlen yr Ysgol Sul

Mae amserlen yr haf yn mynd rhagddi. Yn y llun isod mae'r plant yn mwynhau yn yr awyr agored.

### CYSTADLEUAETH CWPAN DENMAN

Bu'r plant wrthi!'n ddiwyd. Fe ddangoswn y cwpan yn eich rhifyn nesaf pan ddaw i Gaernarfon ar ôl cyfarfodydd Blynyddol Rhithiol yr Undeb ddiwedd mis Mehefin **!!!**



# A WYDDOCH CHI?

# FAINT O EGLWYSI, AELODAU, PLANT A PHOBL IFAINC SY GENNYM?


## CRYNODEB O YSTADEGAU'R EGLWYSI FESUL CYFUNDEB YN 2020

| RHIF | CYFUNDEB | EGLWYSI | AELODAU | PLANT A PHOBL IFAINC |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Llŷn ac Eifionydd | 21 | 629 | 111 |
| 2 | Gogledd Arfon | 22 | 948 | 144 |
| 3 | Dwyrain Dinbych a Fflint | 7 | 164 | 16 |
| 4 | Gorllewin Dinbych a Fflint | 8 | 204 | 34 |
| 5 | Maldwyn | 20 | 480 | 44 |
| 6 | Meirion | 26 | 963 | 170 |
| 7 | Môn | 23 | 564 | 59 |
| 8 | Ceredigion | 50 | 2841 | 217 |
| 9 | Gorllewin Caerfyrddin | 34 | 2347 | 297 |
| 10 | Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog | 46 | 2886 | 325 |
| 11 | Gogledd Morgannwg a Mynwy | 10 | 103 | 14 |
| 12 | Dwyrain Morgannwg | 20 | 1325 | 340 |
| 13 | Gorllewin Morgannwg | 43 | 1839 | 98 |
| 14 | Penfro | 28 | 1195 | 66 |
| 15 | Llundain | 5 | 139 | 3 |
| | | | | |
| 2020 | CYFANSWM | 363 | 16,627 | 1,937 |


*Ffynhonnell*
*Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*
*Tanysgrifiadau a Chyfrifon 2020 - Tŷ John Penri, Abertawe*

*Gweler Papur Priordy Rhifyn Mawrth 2021 am yr ystadegau ar gyfer 2019*

# Hunangofiant y Parchg Howell Mudd




**I archebu copi**
**ffoniwch**
**Howell**
**01269 596 751**
**neu**
**Guto Llywelyn**
**01269 851 655**
**Pris: £9.99**




***Un o'r werin bobl a phregethwr cefn gwlad. Yn gymeriad o ruddin Annibynnol ei farn, a phendant ei safiad ynghylch y pethau sy'n cyfrif. Siaradwr brwd a chwmnïwr difyr a hwyliog. O ddarllen y gyfrol fe welwch drwy'r problemau i gyd y mae wedi cadw ei ffydd pan fydde llawer ohonom wedi ei cholli.*** – Parchg Gerald Jones.

**CROESO i'r Lansiad Rhithiol**
**Nos Sul, 11 Gorffennaf am 6.30**

**Pan fydd y Parchg Beti-Wyn James yn holi Howell am ei lyfr**

ZOOM: ID Cyfarfod: 862 0674 4204   Cyfrinair 527312

# Ifanc @Priordy

Helo bawb
Diolch yn fawr iawn am eich cwmni yn ystod y flwyddyn. Mae wedi bod yn flwyddyn od iawn. Gobeithio bydd gwell trefn ar bethau ym mis Medi! Joiwch yr haf.
Hwyl am y tro, Beti-Wyn xx

*Cofiwch ein dilyn ar Facebook a Twitter,*
*ac ein gwe-fan* [www.priordy.org](http://www.priordy.org)






# Disgyblion Iesu

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O | T | O | I | R | A | C | S | I | S | A | D | W | J |
| C | A | N | L | Y | N | S | D | M | B | I | L | A | U |
| T | U | A | A | C | M | R | E | C | P | W | A | D | M |
| Y | U | A | I | I | A | C | H | A | U | S | U | G | T |
| S | U | E | F | F | L | A | B | A | F | O | G | A | I |
| S | E | T | E | O | I | S | N | R | S | M | T | G | A |
| O | I | H | T | I | E | W | G | O | G | O | R | A | A |
| A | I | A | P | H | I | L | I | P | E | T | O | L | A |
| N | O | P | T | H | A | D | E | U | S | N | S | W | E |
| D | A | B | A | R | T | H | O | L | O | M | E | U | S |
| R | N | S | E | Y | R | F | U | G | S | Y | D | O | D |
| E | P | Y | S | G | O | T | W | Y | R | N | N | H | I |
| A | O | O | P | S | E | I | M | O | N | P | E | D | R |
| S | R | M | D | A | M | A | T | H | E | W | A | I | A |

**GALW, DYSGU, IOAN**
**BARTHOLOMEUS, TOMOS,**
**IAGO FAG ALFFEUS,**
**MATHEW, GWEITHIO,**
**THADEUS, CANLYN, PHILIP,**
**IACHAU, PYSGOTWYR,**
**JWDAS ISCARIOT, SEIMON**
**PEDR, ANDREAS**

# SUL Y TADAU YN Y PRIORDY



**Rhiannon Jones…**



## Oedfa Sul y Tadau 2021

Cynhaliwyd oedfa Sul y Tadau ar ddydd Sul 20 Mehefin yng ngofal Beti-Wyn a thadau Capel y Priordy. Cafwyd gair o groeso gan Beti-Wyn i'r aelodau yn y capel ac i'r aelodau dros zoom. Cyd-ddarllenwyd adnodau o Salm 103 cyn mynd ymlaen i ganu'r emyn cyntaf *O'r fath gyfaill ydy Iesu".* Heb yn wybod i'r aelodau yn y capel cyhoeddodd Beti-Wyn yn gyffrous iawn bod modd canu yn yr Oedfa am y tro cyntaf ers dros flwyddyn, a hynny ar ôl i'r canllawiau newid yn sydyn y noson gynt. Roedd pawb yn dal i wisgo masgiau wrth godi i ganu ond pawb yn falch o gael canu unwaith eto.




Roedd y plant wedi eu cyffroi wrth dderbyn bag yn cynnwys 5 o nwyddau ar y ffordd i mewn i'r capel. Dyma Beti-Wyn yn esbonio pwysigrwydd y cynnwys. Cafodd tag allwedd ei dynnu allan o'r bag yn gyntaf, tag allwedd lle'r oedd modd nodi enw arno er mwyn adnabod yr allwedd. Ystyr hyn ydyw fod Duw yn ein nabod ni i gyd yn dda iawn. Mwgwd ddaeth allan o'r bag nesaf, sy'n arddangos bod Duw yn ein diogelu ac yn ein cadw'n saff rhag peryglon. Yna tynnwyd pâr o lygaid o'r bag sy'n dangos bod Duw o hyd yn cadw llygaid arnom. Nesaf, tynnwyd peg o'r bag. Peg sydd fel arfer yn dal gafael ar ein dillad ar y lein ond dyma symbol sy'n dangos fod Duw yn dal gafael yn dynn arnom rhag cwympo. Roedd syrpreis cyffrous hefyd i'r plant yn y bag sef Jami Dodger oedd yn fwytadwy. Mae'r galon ynghanol y Jami Dodger yn dangos bod Duw yn ein caru. Mae hefyd yn fisged flasus iawn. Dwi'n siŵr bod y plant wedi mwynhau ond yn anffodus roedd y Jami Dodger ar goll ym mag nwyddau Beti-Wyn!



Yna cydganwyd yr emyn "*Arglwydd Iesu dysg i'm gerdded."*


Wrth gwrs gan ei bod yn Sul y Tadau cyfle'r tadau oedd cymryd rhan heddiw ynghyd ag un tad a mab. Gyda'r Ewros yn digwydd roedd thema pêl-droed yn addas iawn i'r tadau gyda cherddoriaeth '*Match of the day'* yn cael ei chwarae wrth i Huw Morgans ac Iwan Evans ddod ymlaen. Soniwyd pa mor bwysig yw bod yn rhan o dîm ond yn anffodus mae rhai unigolion pwerus yn medru trin pobl yn annheg. Eto, mae Iesu Grist yn gapten arnom ni i gyd ac felly yn ein trin yn deg. *"Y chwarae gorau yw chwarae'n deg*"

Y bêl oedd yn cael sylw gan Huw Jones a Dewi Snelson. Peli tebyg i'r rhai sy'n cael eu chwarae yn yr Ewros neu yn ein gardd gefn. Ffatrïoedd ym Mhacistan sydd yn cynhyrchu 70 y cant o'r peli hyn. Mae'n cymryd sgil arbennig i wneud y peli sy'n cael eu gwnïo'n ofalus a'u paentio gyda llaw. Golyga waith trylwyr a chaled iawn i'r gweithwyr ond, yn anffodus, maent yn cael eu trin yn wael, a'r oriau gwaith yn hir.

Tro Elis Jones a GarethJones oedd hi nesaf i sôn am y peli masnach deg. Dyma rai sy'n cael eu cynhyrchu er mwyn rhoi tegwch i'r gweithwyr. Y brif neges felly yw, y tro nesaf byddwch yn prynu pêl-droed prynwch un Fasnach Deg. Bydd hyn yn golygu fod y peli wedi cael eu gwneud o safon dda ond hefyd yn sicrhau cyflog teg.




I orffen cafwyd gair o Weddi a chydadroddwyd Gweddi'r Arglwydd. cyn i ni gydganu *'Cyfrif ein bendithion'* gyda Dewi Pws – emyn hwyliog i ddiweddu'r oedfa.




**DAD**
**Cerddi gan Dadau,**
**Cerddi am Dadau**

**Golygydd Rhys Iorwerth**

**Barddas**
**Mai 2021: £9.95**

***Llyfr y Mis – Mehefin 2021***

## PANED CYN NOSWYLIO

**Beth am ymuno â ni am sgwrs fer a phaned cyn noswylio?**


**Nos Fercher 7 Gorffennaf i 2021 am 8 yr hwyr**

**Cwis a digon o hwyl!**
***Byddwch yn derbyn y dolenni ar gyfer y cyfarfodydd hyn mewn da bryd***

## CWRDD GWEDDI

**Nos Fercher – 8 Medi 2021 am 7**

**Croeso cynnes i bawb. Does dim rheidrwydd ar unrhyw un i gymryd rhan. Eich cwmni sy'n bwysig. Cyfle gwych i ymdawelu a myfyrio gyda'n gilydd. Cofiwch ymuno.**
***Cewch y ddolen zoom yn nes at yr amser***




**CYFRINACHAU**
**Eluned Phillips**

**Golygwyd gan**
**Menna Elfyn**

**Honno**
**Gorffennaf 2021**
**£10.99**

**Gweler y Rhwydwaith**

**GWASANAETH GYDA'R AELODAU**

**27 Mehefin 2021**

**Roedd y gwasanaeth ar Sul olaf y mis yng ngofal yr aelodau ar y thema Yr Ail Filltir. Cyflwynwyd y darlleniadau gan June Thomas a siaradodd Rebecca Hayes â'r plant a diolch hefyd i Osian a Trystan am y sgets i ddangos arwyddocâd yr ymadrodd 'Yr Ail Filltir'. Paratowyd taflen i'r plant gan Jayne Woods. Y cyhoeddwr oedd Elinor W Reynolds ac roedd Eira Phillips wrth yr organ. Roedd y myfyrdod yng ngofal Alun Charles. Yn y Beibl mae tarddiad yr ymadrodd Yr Ail Filltir sy'n golygu cyflawni uwchben a thu hwnt i'r norm. Cyflawnodd Iesu hyd yn oed fwy na hynny dros bob un ohonom. A chrefydd yr ail filltir yw Cristnogaeth. Dyw hi ddim yn hawdd byw crefydd yr ail filltir o gwbl. Mae gofyn am gariad aruthrol a daw hynny wrth i ni hoelio'n sylw'n llwyr ar Iesu, yr un sy'n gallu perffeithio'n ffydd. Ar ôl i ni wrando ar ddatganiad hyfryd Fflur Dafydd *o Ffydd, Gobaith, Cariad*, traddododd Gareth Gravell y weddi i gloi.**



Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com



**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY**

**Nos Fercher 15 Medi 2021 am 7**
**Naill ai yn y Festri Neu ar Zoom**

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda*

**TUDALEN BLAEN**



**Rheswm Emlyn Shiavone dros ddewis *Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw…***

***MAE'R*** emyn hwn ar y dôn *Trewen* yn ffefryn y teulu am nifer o resymau. Cyfansoddwr y dôn yw **Emlyn Evans**, sef cefnder cyntaf ein tad-cu Griffith Jones. Brawd Emlyn oedd Keri Evans, un o gyn-weinidogion y Priordy.



Roedd Emlyn wedi ei eni yn fferm Penralltwen, uwchben pentref Trewen, ger Castellnewydd Emlyn. Roedd yn adnabyddus yn y byd cerdd fel emynydd, arweinydd, hanesydd a beirniad mewn eisteddfodau.

Roedd ein mam Eluned yn hoff iawn o gerddoriaeth ac yn dalentog gyda'r piano. Fe'i henwodd fi ar ôl ei pherthynas Emlyn Evans. Yn anffodus, enillodd pêl-droed y frwydr yn erbyn gwersi piano gyda fi!

Roeddwn yn falch o weld Ann Griffiths yn cyfeirio at yr adnod "*Duw cariad yw"* ym Mhapur Priordy (Rhifyn Mehefin). Mae'r geiriau hyn uwchben y pulpud yng Nghapel Soar y Mynydd. Roedd yr un traddodiad gyda ni yng Nghapel **Ebeneser, Castellnewydd Emlyn**. Ar ddiwedd oedfa'r hwyr byddai'r plant yn mynd i lawr o'r galeri i'r sedd fawr ble roedd y diaconiaid i adrodd adnod. Yr unig un rwy'n ei gofio yw "*Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymorth. Fy nghymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear*." Roedd "*Duw cariad yw*" yn y 'cwpwrdd bach' wrth gefn pe bai'r cof yn methu a byddai wastad yn cael *Amen* gan y diaconiaid doeth!



Yn fwy diweddar rwyf wedi hoffi emyn Elfed ar y dôn Rhys, sef *"Rho im*

*yr hedd na ŵyr y byd amdano…. mae'n dawel gyda'r Iesu wrth y groes.*" Ym mwrlwm y byd yma mae hi'n fwy anodd darganfod lle tawel i fyfyrio ynddo a phwyso a mesur blaenoriaethau bywyd.

Roeddwn yn siarad yn ddiweddar â rhywun oedd newydd golli'i fam. Cyfeiriodd at y ffaith fod dyddiad geni a dyddiad marw ar garreg fedd. Aeth ymlaen i ddweud mai'r gofod rhwng y ddau ddyddiad sydd yn fwyaf pwysig, h.y. beth oedd y person wedi'i gyflawni yn ystod ei oes.

Ymatebais drwy ddweud y dylai fod gofod arall, efallai, ar ôl y dyddiad marw i gyfeirio at y rhan nesaf o'r daith a'r sialens newydd.

Mae tipyn o gyffro wedi bod gyda phêl-droed yr Euros a rygbi'r Llewod. Wrth gwrs, fyddai'r chwaraewyr ddim yn troi lan heb baratoi a chael hyfforddiant ar gyfer y gemau pwysig hyn.

Mae'n codi'r cwestiwn, sef faint rydym ni'n ei baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf ar ôl y bywyd presennol?

Roeddwn yn ffodus iawn i gael hyfforddwyr arbennig heb eu hail yng Nghapel Ebeneser dan ofalaeth y Parchedig Ddr. R. Leonard Hugh a'r Parchedig William Davies.

Ar ôl symud i Gaerfyrddin roeddwn yn falch o gael arweiniad y Parchedig Eifion Lewis yng Nghapel Elim, Ffynnon-ddrain ac yn awr, wrth gwrs, y Parchedig Beti-Wyn James yng Nghapel Y Priordy. Braint o'r mwyaf yw dod i adnabod unigolion fel hyn a dysgu oddi wrthynt. A braint yn ogystal yw cwmni ac ysbrydoliaeth aelodau't capel hyfryd hwn.

***RWYF*** am orffen drwy gyfeirio at fy hoff emyn ar y dôn Trewen, Mae'r neges ym miwsig Emlyn Evans a geiriau Thomas Jones yn codi calon wrth feddwl am yr Atgyfodiad a'r daith bwysig sydd i ddod:

Wel, arno bo 'ngolwg bob dydd,
a'i daliad anfeidrol o werth;
gwir awdur, perffeithydd ein ffydd,
fe'm cynnal ar lwybrau blin serth:
fy enaid, ymestyn ymlaen,
na orffwys nes cyrraedd y tir,
y Ganaan dragwyddol ei chân,
y Saboth hyfrydol yn wir.

## CRISTION AR EI NEWYDD WEDD




**Mae'r cylchgrawn Cristion wedi'i gyhoeddi chwe gwaith y flwyddyn er 1983. Fe'i cyhoeddir gan bwyllgor eciwmenaidd sy'n cynnwys yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, yr Eglwys Bresbyteraidd, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig.**

**Caiff golygyddion eu penodi am dair blynedd. Daeth tymor y Parchedig Owain Llyr Evans i ben ac mae tri golygydd newydd wedi ymgymryd â'r gwaith, sef**



**Y Parchedig Dylan Rhys Parry**
***Gweinidog y Tabernacl, Penybont ar Ogwr a'r Tabernacl, Porthcawl***

**Y Parchedig Carwyn Siddall**
***Gweinidog Bro Llanuwchllyn a'r Cylch***





**Nerys Siddall**
***Rheolwraig a Swyddog Addysg yng Nghanolfan Byd Mary Jones***

**Gobaith y golygyddion hyn yw darparu cylchgrawn o safon, yn cynnwys ystod eang o erthyglau a chyfraniadau. Bydd yr arlwy yn cynnwys Munud i Feddwl, Adolygiadau, Pererindodau amrywiol yng Nghymru, Cerddi gan ystod eang o feirdd, Erthyglau diwinyddol a hefyd Dudalen a Chystadleuaeth i'r plant a**

**Chroesair i oedolion. Gydag un erthygl, sef *Gair o'r Galon*, gwahoddir unigolion gwahanol i rannu eu profiadau a'u taith ffydd ac i gydfynd â'r erthygl bydd recordiad fideo o gyfweliad â'r unigolion yn ymddangos ar wefan y cylchgrawn.**

**CRISTION -- Cyhoeddiad deufisol**

**Am <u>gopi</u> – Cysylltwch â Sulwyn Thomas**

## UNDEB CAERFYRDDIN – ANGEN GWIRFODDOLWYR!

**Prif leoliad yr Undeb rhwng 7-9 Gorffennaf 2022 fydd Canolfan Halliwell, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.**

Mae Pwyllgor Lleol ac adrannau wedi cael eu sefydlu i fwrw ymlaen â'r trefniadau, gyda threfnyddion neu gydlynwyr ar gyfer pob un ohonynt.

Bydd angen gwirfoddolwyr i ymuno â'r adrannau hyn er mwyn rhoi help llaw. Mae'n siŵr bod rhywbeth yma at ddant pawb. Gan mai'r Cyfundeb sy'n gwahodd, hyderwn y bydd rhwyrai o bob eglwys yn barod i ymuno'n y gwaith.

Os ydych yn gallu helpu mewn unrhyw fodd efallai y byddech mor garedig â chysylltu'n uniongyrchol gyda'r trefnyddion neu'r cydlynwyr perthnasol. Gofynnir yn garedig i chi sicrhau bod hyn yn digwydd mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda, er mwyn hwyluso'r trefniadau.

Os oes angen eglurhad pellach arnoch, neu am holi cwestiwn, mae croeso i chi ffonio neu e-bostio'r trefnydd neu gydlynydd perthasol.

**Diolch o galon i chi ymlaen llaw.**

| | |
|---|---|
| **Adnoddau Technegol** | **Trefnydd: I'w benodi**<br>**Cyswllt dros dro: Tom Defis**<br>tdefis@cymorth-cristnogol.org<br>☎ 01267 236411 |
| **Arlwyo**<br>*Bydd angen trefnu bwyd i bawb!* | **Cydlynydd: Jean Lewis**<br>gwd_dai@hotmail.com<br>☎ 01994 484334 |
| **Cyflwyniad**<br>*(y grŵp ar hyn o bryd yn gwyntyllu syniadau ar gyfer Cyflwyniad neu Berfformiad Byw / Rhithiol yn ystod Undeb 150* | **Cydlynydd: Tom Evans**<br>tomlyn1@btinternet.com<br>☎ 01267 243567<br>**Is-gydlynydd: Sioned Page Jones**<br>sionedpage@hotmail.com<br>☎ 01267 2817535 |
| **Cyhoeddusrwydd / Llunyddiaeth**<br>*croesawu / cyfleu gwybodaeth drwy lenyddiaeth a fideo* | **Cydlynydd: Alun Lenny**<br>alunlenny@hotmail.co.uk<br>☎ 01267 232577<br>07817 519039 |
| **Stiwardio**<br>*Mae angen criw o bobl hynaws i wisgo'r cotiau melyn!* | **Cydlynydd: Marlene Jones**<br>cwmafon@hotmail.com<br>☎ 01267 237592<br>**Is-gydlynydd: Arthur Morgan**<br>arthurmorgan1@hotmail.co.uk<br>☎ 07896 688883 |

♫ G ♫

**Pa mor dda ydych chi'n 'nabod eich emynau? Mae'n Fis Gorffennaf. ac mae pob gair sy'n eisiau yn yr her isod yn dechrau gyda G. Rhowch gynnig arni! Pob Iwc!!**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cofiwn am G------- Iesu<br>cyn ei fyned at y Tad | G |
| | | |
| 2 | Rwy'n dewis Iesu a'i farwol g---'<br>Yn frawd a phriod imi fwy | G |
| | | |
| 3 | O tyred i'n g------, Iesu da<br>fel cynt y daethost ar dy newydd wedd | G |
| | | |
| 4 | Tua Bethlem dref<br>awn yn fintai g--- | G |
| | | |
| 5 | Arnat Iesu boed fy meddwl,<br>am dy g----- boed fy nghán | G |
| | | |
| 6 | Ysbryd g------, rho i mi<br>fod yn raslon fel tydi. | G |
| | | |
| 7 | O llanwa hwyliau d'Eglwys<br>yn g----- yn y gwynt | G |
| | | |
| 8 | Fy ngorchwyl yn y byd<br>yw g------- Duw | G |
| | | |
| 9 | O fy Iesu bendigedig,<br>unig g---- f'enaid gwan | G |
| | | |
| 10 | O Iesu annwyl, rho i ni<br>Un g----- bach o'th gariad di. | G |

**Atebion ar Dudalen 43.**

**Gareth Gravell…**



# DARLLEN DIFYR


Tybed faint ohonoch sy’n mwynhau pryd o fwyd Tsieineaidd nawr ac yn y man? Rhaid i mi gyfadde fy mod i’n gwsmer go gyson yn siop *tecawe* **Kwong Yick** yn Heol Dŵr lle mae merch o’r enw **Julie Ma** yn berchenog ac yn gweini wrth y cownter. Fodd bynnag, mae gallu’r ferch hon yn mynd dipyn ehangach na gwerthu cyris a chop suey oherwydd y mae yn ddiweddar wedi ennill gwobr Richard a Julie / W H Smith Search for a best seller 2020.





Cyhoeddwyd yn Chwefror y llynedd.

Enw’r nofel yw *Happy Families* sydd wedi’i lleoli yma yng Nghaerfyrddin.  Mae Julie Ma wedi ysgrifennu nofel sydd wedi’i gosod mewn tecawe Tsieineiaidd. Mae Julie wedi cael sawl gyrfa ers graddio o Brifysgol Aberystwyth cyn penderfynu cymryd y sedd flaen yn y busnes teuluol a dyma oedd ei hysbrydoliaeth ar gyfer *Happy Families.*




Mae’r nofel wedi’i gosod mewn bwyty pryd ar glud o’r enw Ya Sum mewn tref dychmygol o’r enw Cawsmenyn.

Mae’r prif gymeriad, sef Amy Li wedi dychwelyd yn ôl o Gaerdydd i fyw gyda’i thad-cu, Ah Goong. Wrth i’r stori fynd ymlaen, cawn hanes Ah Goong a’r ymdrech roedd yn

rhaid iddo fe a'i wraig ei gwneud i sicrhau bywoliaeth wrth ddod i Gymru am y tro cyntaf.

Mam Amy yw Joan, gwraig Ah Goong. Wedi rhai blynyddoedd fe briododd Joan â dyn o'r enw T.C Li, sef tad Amy ond yn anffodus roedd y berthynas rhwng y ddau ddyn (Goong a Lee) yn fregus iawn ac fe gawn nifer o enghreifftiau doniol dros ben am y ffyrdd roedd y ddau yn dangos eu hatgasedd at ei gilydd ac yn wir yn ceisio osgoi ei gilydd.

Mae Julie Ma yn darlunio'r berthynas yma'n wirioneddol wych a gwnaeth i mi chwerthin yn uchel ar sawl achlysur.



Un diwrnod, fodd bynnag, fe gwympodd Ah Goong yn y stryd a bu rhaid iddo dreulio amser hir yn yr ysbyty. Am ran helaeth o'r llyfr dydy ni ddim yn cael gwybod pam y dychwelodd Amy o Gaerdydd ond wrth i Julie Ma wau'r gorffennol a'r presennol at ei gilydd rydyn ni'n dod yn ara bach i ddeall pam. Yn naturiol mae Amy yn poeni am ei thad-cu ac yn ofni y bydd wedi colli'i afael ar fywyd cyn i'r rhwyg rhwng ei thad ag Ah Goong gael ei ddatrys. Yn ystod y cyfnod hwn fe welir Amy'n rhoi hanes y teulu ac yn datgelu rhai cyfrinachau am ei orffennol.

Mae Julie Ma wedi ysgrifennu darn hyfryd o ffuglen ac mae hiwmor clyfar yn rhedeg drwy'r llyfr. Mae'n stori hefyd sy'n llawn cynhesrwydd am ddyheadau teulu o fewnfudwyr, gan gynnwys digwyddiadau dramatig bob dydd ynghyd â hanesion diddorol sy'n digwydd i deulu sy'n berchen ar siop *tecawe* Tsieineaidd.

Wna i ddim datgelu rhagor, rhag ofn eich bod am ddarllen y nofel hynod o ddoniol hon a darganfod rhagor o'r cyfrinachau digri.




Y tro nesaf y byddwch yn mynd am bryd o fwyd o'r Kwong Yick, holwch Julie am y llyfr. Bydd yn hapus i sgwrsio amdano.

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

## Cofio John Stott (1921-2011)

## Anglican Efengylaidd ac Awdur




Yn anfynych iawn iawn y byddai'i enw'n ymddangos yn y wasg yng Ngwledydd Prydain ond yn 2005 gosododd *Time Magazine* y gŵr hwn, a ysgrifennodd y rhan fwyaf o'i lyfrau yng Nghymru, ymhlith y can person mwyaf dylanwadol yn y byd. Fel un o brif awduron *Cyfamod Lausanne* - maniffesto efengylaidd byd eang o bwys mawr ym 1974 - daeth y clerigwr hwn yn ŵr dylanwadol iawn yn y cylchoedd Efengylaidd gan barhau i fod yn Llywydd Anrhydeddus Mudiad Lausanne hyd ei farw.

**Ganed John Stott gan mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon ar 27 Ebrill 1921 yn Llundain – ei dad o feddyg yn amheuwr a'i fam yn aelod o eglwys Lutheraidd.** Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Rugby a Choleg y Drindod, Caergrawnt. Cafodd ei baratoi ar gyfer y weinidogaeth yn Ridley Hall, Caergrawnt. Daeth yn rheithor Eglwys yr Holl Eneidiau, Laugham Place, yn y West End yn Llundain rhwng 1950 a 1975, Bu'n mynychu gwasanaethau yn yr eglwys hon pan oedd yn blentyn. Roedd galw mawr arno i arwain cenadaethau a chyrsiau yng ngwahanol rannau o'r byd ac o 1975 ymlaen neilltuodd ei amser i'r gwaith hwn. Parhaodd yn rheithor anrhydeddus Eglwys yr Holl Eneidiau. Roedd hefyd yn awdurdod cydnabyddedig ar adareg ac yn ffotograffydd dawnus.




Am dros 50 mlynedd, byddai Stott yn darllen y Beibl i gyd bob blwyddyn gan ddefnyddio cynllun darllen Robert Murray McCheyne, Gweinidog gydag Eglwys yr Alban. Cyflwynwyd y cynllun iddo gan y **Dr Martyn Lloyd-Jones**, y pregethwr enwog a aned yng Nghaerdydd ond a godwyd yn Llangeitho, Ceredigion. Daeth yn arfer i Stott godi am bump y bore i ddarllen a gweddïo. Doedd Lloyd-Jones a Stott ddim yn gweld llygad yn

llygad ar un mater, fodd bynnag.  Achosodd Lloyd-Jones gryn dipyn o anghydfod yng Nghynhadledd Genedlaethol yr Efengylwyr ym 1966 drwy alw ar glerigwyr o argyhoeddiad Efengylaidd i adael eglwysi lle roedd safbwyntiau gwahanol yn bresennol. Cafodd hyn ei ddehongli fel cyfeiriad yn bennaf at efengylwyr oddi mewn i Eglwys Loegr.  Nid oedd Stott o'r un farn.





Ysgrifennodd John Stott dros 50 o lyfrau – rhai ohonynt wedi ymddangos yn unig mewn Tsieinëeg, Corean a Sbaeneg, ynghyd â llawer iawn o erthyglau a phapurau. Ei waith mwyaf adnabyddus yw *Basic Christianity* sydd wedi gwerthu dros ddwy filiwn o gopîau a'i gyfieithu i fwy na 60 o ieithoedd. Mae ei gyfrolau eraill yn cynnwys *Christ the Controversialist (1970)* a *The Cross of Christ (1986)* a'i lyfr olaf *A Radical Disciple* a ysgrifennwyd flwyddyn cyn ei golli - i ddweud ffarwél wrth ei ddarllenwyr',




Bydd darllenwyr *Y Tyst* wedi sylwi'n ddiweddar ar erthygl ble holwyd Gwilym Tudur ynglŷn â'r dylanwadau fu arno dros y blynyddoedd. Ar ôl y Beibl, un o'r cyfrolau sydd wedi cael yr argraff fwyaf arno yw *The Cross of Christ* gan John Stott ble mae'r awdur yn esbonio'n glir beth yw pwrpas rhyfeddol y Groes. **Gwilym Tudur** yw gweinidog dan hyfforddiant Seion (Stryd y Popty), Aberystwyth, a Bethel, Tal-y-bont.






Un o lyfrau Stott a addaswyd i'r Gymraeg gan Meirion Morris yw **Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn (Cyhoeddiadau'r Gair, 2010).** Mae'n cynnwys 365 o fyfyrdodau. ac yn tywys y darllenydd drwy'r Beibl yn ei drefn gronolegol**,** gan gyfeirio at y prif wyliau

eglwysig a delio â phrif feini canolog y ffydd Gristnogol. Cyhoeddwyd ar ffurf E-lyfr yn 2015.



Mae'n debyg i John Stott gyflawni'r rhan fwyaf o'i waith ysgrifennu sylweddol yn The Hookses, hen fwthyn diarffordd ger Dale ar arfordir Sir Benfro. Fe'i prynodd ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf gyda'i enillion am ei lyfr cyntaf. Roedd y pryd hynny'n dadfeilio heb unrhyw brif gyflenwad trydan am lawer o flynyddoedd. Adnewyddodd y bwthyn a'r adeiladau allanol a'u haddasu'n lle wedi hynny ar gyfer ysgrifennu, encilio a cheisio adnewyddiad corfforol ac ysbrydol. Wrth ymweld â Hookses yn gyson dros y blynyddoedd daeth Stott yn berson poblogaidd a chymeradwy yn y gymuned leol ac yn eglwysi Dale, Sain Ffred (St. Brides) a Marloes ble byddai'n addoli.

Bu farw 27 Gorffennaf 2011. Cynhaliwyd angladd y gŵr mawr ond diymhongar hwn yn Eglwys yr Holl Eneidiau, Llundain a chladdwyd ei lwch, yn dilyn gwasanaeth o ddiolch, yn Eglwys Sant Iago, Dale.






**CADWCH YN DDIOGEL**

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn a Gillian Frazer am y lluniau'r mis hwn.

**EISTEDDFOD T - URDD GOBAITH CYMRU**
***31 Mai – 4 Mehefin 2021***
**Diolch i bawb a fu'n cystadlu a llongyfarchiadau i bawb a fu'n fuddugol**

## Cynradd

| | | |
|---|---|---|
| Côr Bl.6 ac iau (dros 20 o leisiau) Ysgol y Dderwen | 2 | Arweinydd - Catrin Mair Jones<br>Disgyblion - Gwenan Jones, Anna Jones, Efa Evans, Miriam Williams, Beca Elfyn, Mali Marks, Mac Bodycombe-Pullin. |
| Parti Llefaru Bl.6 ac iau Ysgol y Dderwen | 2 | Hyfforddwr - Sián Axford<br>Gwenan Jones, Anna Jones, Efa Evans. |
| Ensemble Lleisiol Teulu | 1 | Greta Jones a'r teulu Jones |
| Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.6 ac iau | 2 | Mac Bodycombe-Pullin |
| Coginio Pryd o Fwyd | 2 | Greta Marged Wyn<br>Ysgol Llangynnwr |

## Uwchradd

| | | |
|---|---|---|
| Ysgrifennu - Adolygu Ffilm Bl.7 a dan 19 oed | 1 | Siwan Mair Jones<br>Bl.10 Bro Myrddin |
| Dynwarediad | 3 | Tomos Morgans<br>Bl.7 Bro Myrddin |

## Adrannau

| | | |
|---|---|---|
| Ymgom | 1 | Gwenan Jones, Efa Evans, Beca Elfyn.<br>Adran yr Urdd Ffynnon-ddrain |

**Prif Ddramodydd Eisteddfod T**
**Martha Grug Ifan**
**Aelod Unigol - Cylch Gorllewin Caerdydd / Rh. Caerdydd a'r Fro**
**Trydydd**

## ADDOLI AR Y CYD
## MIS AWST 2021

**Ar ôl rhoi ystyriaeth ddwys i'r mater, penderfynodd Gweithgor Capeli Cymraeg Caerfyrddin mai doethach fyddai cynnal gwasanaethau undebol rhithiol yn ystod mis Awst y tro hwn yn hytrach na rhai wyneb yn wyneb.**

**Mae'r Gweithgor hefyd yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig Beti-Wyn James am fod mor barod i drefnu'r gwasanaethau hyn drwy gydol y mis. Gwerthfawrogir hynny gymaint yn fwy gan ei bod yn dymor y gwyliau.**

**Rhyddheir y gwasanaethau bob Sul yn y mis fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| **Dydd Sul** | **1 Awst 2021** |
| **Dydd Sul** | **8 Awst 2021** |
| **Dydd Sul** | **15 Awst 2021** |
| **Dydd Sul** | **22 Awst 2021** |
| **Dydd Sul** | **29 Awst 2021** |

### Dod o hyd i'r Gwasanaethau

**Bydd y gwasanaethau ar gael ar Sianel YouTube a Thudalen Facebook Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin erbyn 10 o'r gloch ar y bore Sul. Hefyd, bydd y ddolen berthnasol ym meddiant y gwahanol eglwysi ar y nos Sadwrn blaenorol**

## DYLETSWYDDAU

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Gorffennaf | | Medi | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Alison Parsons | | Elinor Wyn Reynolds | Adrian Evans |

### DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 4 | Luned Voyle | Medi | 5 | Cwrdd Plant |
| | 11 | Sul y Cyfundeb | | 12 | Meleri Ll O'Leary |
| | 18 | Eirlys Jones | | 19 | Heledd Tomos |
| | 25 | Alison Parsons | | 26 | Yr Aelodau |

### CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf | Jayne Woods | Medi | Adrian Evans |

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**CASGLIAD CYMORTH CRISTNOGOL 2021**

Cyfrannwyd £220 gan ein haelodau at gasgliad Wythnos Cymorth Gristnogol eleni. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.

***DYMUNWN*** yn dda ii bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy’n gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd.  Meddyliwn yn arbenig am Eleri James Nigel Jenkins ac Alwyn Jones. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

Bu’r Athro Menna Elfyn yn trafod gyda Dewi Llwyd ar **Dros Ginio** ar **Radio Cymru** lyfr yn y gyfres *Clasuron Cymraeg Honno* sy’n cyflwyno i’r cyhoedd nofel anghyhoeddedig Eluned Phillips*, Cyfrinachau*, ynghyd â’r gerdd a ddaeth yn ail i’w cherdd arobryn hi ei hun ar gyfer cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol 1967. Menna Elfyn sy’n gyfrifol am y Rhagymadrodd. Mae’r llyfr I’w gyhoeddi’r mis hwn gan *Honno.*



Mae’n siŵr hefyd fod llygaid llawer ohonom wedi’u hoelio ar **S4C** ar Nos Sul wrth i ni ddilyn **Yr Amgueddfa**, y ddrama o waith Fflur Dafydd am gwymp hunan-ddinistriol dynes lwyddiannus sy'n dechrau affêr beryglus.

Efallai i chi sylw camera a drymiau y tu allan i’r Priordy un bore Sul. Wel fidio i lansio **Shwmae Sir Gâr** oedd yn cael ei ffilmio a Tomos Morgans oedd yn chwarae’r drymiau.  Hefyd yn y ffilm mae Ahmed, y Tŷ Capel, i’w weld. Mae ‘Shwmae Sir Gâr,’ yn un o rwydweithiau newydd S4C sy’n rhan o brosiect S4C Lleol.  Platfform yw hwn sy’n rhoi perchnogaeth i drigolion y sir i ddweud eu dweud, i rannu’u straeon a’u gobeithion, yn ogystal ag adlewyrchu hanes a diwylliant byw bröydd o fewn y sir. Mae ‘Shwmae Sir Gâr’ yn gynllun peilot gan S4C am gyfnod o chwe mis. Mae’r prosiect yng ngofal Canolfan S4C Yr Egin a Chwmni Cynhyrchu Carlam Cyf.

Bu Beti-Wyn yn cymryd rhan yn y cyfarfod rhithiol i lansio’r gyfrol **Cofio Euros**, sef Y Parchedig Euros Wyn Jones, gweinidog, athro a hyfforddwr i bregethwyr a gweinidogion. Bu Beti-Wyn yn un o”i fyfyrwyr ac mae hi hefyd wedi cyfrannu i’r gyfrol deyrnged hon.

Ein llongyfarchiadau mawr i Heledd Mai Jones am ennill gradd (dosbarth cyntaf!) o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a phob dymuniad da iddi i'r dyfodol.



***I GLOI***, ein dymuniadau gorau i ddau o'n haelodau – John Gibby sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig a'r Athro Emeritws Desmond Hayes a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 27 Gorffennaf 2021. Pen-blwydd hapus iawn i John a Des oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Philip a Jayne a Lucy ar golli mam Philip, mam yng nghyfraith Jayne a mam-gu Lucy, sef Margaret Non Jones, Cartref Gofal Castell Tywi a gynt o Heol y Coleg a Tŷ Rhys, Caerfyrddin. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth a'u hiraeth. Cynrychiolwyd y Priordy yn yr angladd gan ein Gweinidog.

♫ **ATEBION HER YR EMYNAU** ♫

**Mae'r rhifau'n cyfeirio at Ganeuon Ffydd**

**1. Gomisiwn (259); 2. Glwy' (305); 3. Gwaredu (375); 4. Gref (468); 5. Gariad (502); 6 Graslon (589); 7. Gadarn (615); 8. Gogoneddu (673); 9. Gwmni (739); 10. Gronyn (864).**

**Y TYST**
**yn llawn newyddion da!**
**50c y rhifyn! Cysyllter â Sulwyn Thomas**



***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**



# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 4 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | C |
| | 11 | Bore | Sul y Cyfundeb – Mwy o fanylion y tu mewn | |
| | 18 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog. Cwrdd Eglwys i ddilyn. | |
| | 25 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Medi | 5 | Bore | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | C |
| | 12 | Bore | Oedfa gyda'n Gweinidog | |
| | 19 | Bore | Oedfa gyda'n Gweinidog | |
| | 26 | Bore | Oedfa gyda'n Gweinidog | |

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu**
**Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC | | | |
|---|---|---|---|
| ✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant | | | |
| Medi | | | |
| 5 | 12 | 19 | 26 |
| CP | ✓ | ✓ | ✓ |

**CWRDD EGLWYS**
**Bore Sul, 18 Gorffennaf ar ôl yr Oedfa**
**Dan sylw – Mater yn ymwneud â'r adeiladau**

## DALIER SYLW

**Hyderwn y bydd yr amgylchiadau lleol yn caniatáu i ni barhau i gynnal oedfaon ar y Sul ac ailddechrau'r Ysgol Sul. Byddwn, wrth gwrs, yn cadw golwg ar y sefyllfa'n ddyddiol a rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd. Pwysleisiwn hefyd y byddwn yn deall yn iawn os na fydd rhai ohonom yn teimlo'n ddigon hyderus i fentro i'r oedfaon ar hyn o bryd.**

**GWELER Y TU MEWN AM Y TREFNIADAU AR GYFER MIS AWST**